

Cefnogi Meddygon sy'n cwblhau cyfaint isel o Waith Clinigol Meddygon Teulu - GOFAL

Cyflwyniad a nod:

Mae'r Uned wedi cynhyrchu fframwaith o'r enw CARE i gefnogi meddygon a allai fod yn gwneud gwaith clinigol cyfaint isel. Mae templed o'r enw 'Cyfaint Isel o Waith Clinigol - CARE' wedi'i ychwanegu at Arfarniad Ymarfer Cyfan ar MARS er mwyn galluogi meddygon i ddarparu gwybodaeth berthnasol yn hyn o beth.

Dylai'r drafodaeth yn y gwerthusiad dawelu eich meddwl chi (a'r meddyg) o'u gallu i ddarparu gofal diogel o ansawdd i gleifion drwy ystyried:

1. Diogelwch cleifion.
2. Cefnogaeth i'r meddyg gadw a datblygu ei sgiliau ar draws eu cwmpas gwaith.
3. Camau i alluogi'r meddyg i ffynnu o fewn cwmpas ei waith.

Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar gefnogi proffesiynoldeb a dirnadaeth y meddyg o ran maint ei waith clinigol.

Beth yw CARE:

Gellir mynd i'r afael â'r holl elfennau uchod drwy ystyried 4 cwestiwn/ystyriaeth allweddol – CARE – Ymrwymiad, Asesiad, Gofynion, Gwerthuso
(Commitment, Assessment, Requirements, Evaluation)

Beth yw eich YMRWYMIAD presennol i'ch rôl practis cyffredinol?

Beth yw eich ASESIAD o'i effaith ar eich gallu i gyflawni'r ddyletswydd hon i safon dderbyniol?

Sut mae hyn yn llywio eich GOFYNION/anghenion addysgol i gynnal safonau gofal?

Sut byddwch chi'n gwerthuso'r DYSTIOLAETH eich bod yn cynnal cymhwysedd?

Beth yw gwaith clinigol cyfaint isel:

Nid oes diffiniad cyffredinol y cytunwyd arno o lwyth gwaith clinigol isel ac mae'n debyg nad yw'n ddefnyddiol cyfrif nifer y sesiynau a weithiwyd dros flwyddyn. Yng Nghymru rydym o'r farn mai mater i'r meddyg unigol fyddai adnabod nifer isel o gyswllt clinigol.

[Mae GIG Lloegr](#) a'r [RCGP](#) ill dau wedi diffinio nifer isel fel llai na 40 sesiwn y flwyddyn o waith clinigol Ymarfer Cyffredinol y GIG, fodd bynnag, byddem yn eich cynghori i ystyried hwn fel **dangosydd posibl yng Nghymru yn unig**. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein [gwefan Ailddilysu Cymru](#).

Rhoi CARE ar waith:

Gallai'r adnodd gwerthuso isod eich cynorthwyo i gynhyrchu anghenion addysgol priodol, gan arwain at Gynllun Datblygu Personol (CDP), ar gyfer y meddyg.

Categoriâu	Cyd-destun	Sylwadau'r Arfarnwr	Arfarnwr - syniadau ar gyfer llinellau trafod	Cynllun
Cyfaint	Nifer y sesiynau yn ystod y 12 mis diwethaf		Disgrifiwch eich arferion gwaith dros y 12 mis diwethaf, nifer y sesiynau, beth mae sesiwn yn ei olygu, pa mor aml rydych chi'n gweithio.	
Rhannu	Gwaith wedi'i rannu'n gyfartal neu gyda seibiannau sylweddol		Ydych chi'n gweithio bob wythnos neu mewn talpiau / blociau? Beth sydd fwyaf addas i chi o ran eich datblygiad ac ymrwymadau eraill? Ydych chi'n "mynd i mewn i'r rôl" wrth wneud sesiynau'n agos at eich gilydd neu a yw'n well gennych gael sesiwn reolaidd fel nad oes seibiannau hir rhyngddynt. A ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch dad-sgilio rhwng sesiynau ac mae'n cymryd ychydig i fynd yn ôl i mewn iddo?	

Profiad	Am faint o amser y byddwch yn gweithio fel meddyg teulu – cam yn eich gyrfa		Beth oedd eich profiad blaenorol? A ydych erioed wedi gweithio'n llawn amser mewn practis cyffredinol ac os felly, pa mor bell yn ôl?	
Gorgyffwrdd â rolau eraill	Rolau eraill a graddau'r gorgyffwrdd â rôl meddyg teulu		Sut mae eich rolau eraill yn gorgyffwrdd ag ymarfer cyffredinol? Pa sgiliau sy'n croesi'r arbenigeddau ac a oes unrhyw addasiadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i'ch perfformiad clinigol fel meddyg teulu?	
Hyd y gwaith cyfaint isel	Pa mor hir mewn rolau presennol a chynlluniau i newid ymrwymadau		Ers pryd ydych chi wedi cael yr un lefel o ymrwymiad? Beth oedd lefel eich ymrwymiad cyn hyn, ac ym mha arbenigeddau?	
Cwmpas Ymarfer	Cyflenwad llawn o GMS - Rheoli Clefydau Cronig / ymweliadau / ac ati		Beth mae eich rôl mewn ymarfer cyffredinol yn ei olygu? Faint o gleifion ydych chi'n eu gweld ac ym mha gapasiti h.y. brysbennu dros y ffôn / wyneb yn wyneb / ymweliadau cartref / clinigau rheoli clefydau cronig? Beth yw eich cymysgedd achosion o fewn y sesiynau hynny? A yw'r holl gleifion â phroblem benodol yn cael eu harbed i chi neu a yw'r sesiwn yn gyffredinol?	
Meincodi, integreiddi o a chefnogaeth	Cymhariaeth â chyfoedion Data a gynhyrchir gan y sefydliad Cyfarfod rheolaidd gyda chyfoedion Mynediad at gefnogaeth a chynghor		Sut ydych chi'n sicrhau bod eich ymarfer yn dderbyniol ac yn gyfredol? Sut ydych chi'n gwybod ei fod? A oes unrhyw gyfleoedd i archwilio'r hyn a wnewch? Allwch chi brofi eich bod yn gwneud gwaith da?	
Agwedd bersonol at risg	Trefniadau i aros o fewn ffiniau cymhwysedd		Beth ydych chi'n ei wneud os nad ydych chi'n gwybod sut i reoli achos? Sut ydych chi'n gofyn am help?	

	Mynediad i wybodaeth sefydlu a systemau digonol		Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer hyn? Sut ydych chi'n darganfod sut mae pob practis yn rhedeg? Sut mae rhoi gwybod am gamgymeriad? Sut ydych chi'n trosglwyddo gofal i eraill?	
DPP	Sut ydych chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf		Sut ydych chi'n cael y wybodaeth ddiweddaraf? Sut ydych chi'n nodi eich anghenion hyfforddi? Sut ydych chi'n dangos ansawdd yn yr hyn rydych chi'n ei wneud?	
Gweithred oedd	Camau sydd eu hangen i gynnal cymwyseddau ar draws cwrdd y gwaith		Pa feysydd ydych chi'n teimlo eich bod chi'n eu gwneud yn dda? Sut ydych chi'n gwybod eich bod chi'n gwneud gwaith da a sut allech chi ddangos hyn? Pa feysydd sy'n wannach? Sut ydych chi'n gwybod eich bod chi'n wan? Sut allech chi fynd i'r afael â hyn? Sut gallwch chi adnabod yr hyn nad ydych chi'n ei wybod nad ydych chi'n ei wybod? Beth sydd angen ei gynnwys yn eich ffolder arfarnu y tro nesaf i ddangos eich bod yn gweithio'n ddiogel? Beth sydd angen i ni ei ychwanegu at eich CDP?	

Cyngor/ymholiadau pellach:

Siaradwch â'ch AC yn y lle cyntaf i drafod hyn ymhellach.